

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# ANTUR NANTLLE CYF

Gweithio er lles yr ardal

## 2008 / 2009

# GAIR GAN Y CADEIRYDD



**Cyng. O P Huws**

Mae'n bleser gael cyflwyno Adroddiad Blynyddol Antur Nantlle eto eleni.

Hwn yw'r 18 fed flwyddyn i ni weithredu, ac fel un o'r sylfaenwyr dwi'n ymhyfrydu yn y ffaith ein bod ni Yma o Hyd, ac yn dal i greu argraff sylweddol ym mywyd economaidd y Dyffryn.

Carwn ddiolch i bawb fu'n ymwneud a'r Antur yn y flwyddyn a fu, ac yn arbennig i'n staff ymroddgar am eu gwaith diflino. Diolch hefyd i'm cyd-gyfarwyddwyr am eu hymroddiad a'u presenoldeb, a hynny yn gwbl wirfoddol. Carwn ddiolch yn arbennig i Alun Ffred Jones AC. am ei gyfraniad a'i gefnogaeth. Bu Alun yn Gadeirydd yr Antur am blwyddyn, ac yn dilyn hynny bu'n Lywydd Anrhydeddus. Ymddiswyddodd fel Cyfarwyddwr yr Antur yn 2008/2009 yn sgil ei benodiad fel Gweinidog Treftadaeth Llywodraeth y Cynulliad. 'Rydym yn ymfalchïo yn ei lwyddiant, ac yn dymuno yn dda iawn iddo yn y gwaith.


'Rwy'n falch iawn o ddeud bod ein hunedau i gyd yn llawn, a diolchaf i'r tenantiaid oll am eu gweithgaredd a'u cyfraniad i economi'r Dyffryn. Er nad yw'n dyddiau da ar yr economi yn gyffredinol, mae cyfraniad y busnesau bach lleol yn sylweddol mewn ardal fel Dyffryn Nantlle.

Nid yw Antur Nantlle wedi osgoi'r wasgfa ariannol sydd yn amlwg yn effeithio ar bawb. Yn anffodus mae grantiau sydd wedi bod mor bwysig i ni fel corff i weithredu wedi prinhau yn sylweddol, ac efallai'r her fwyaf i waith yr Antur i'r dyfodol bydd ail edrych, ac ail ddiffinio ein rôl yn sgil hyn.
Mae peryglon mewn bodloni i aros yn ein hunfan, bydd rhaid bod yn barod i ail strwythuro yn hyderus i'r dyfodol, er mwyn sicrhau parhad ein cyfraniad ar ddiwedd cyfnod llwyddiannus o ddeunaw mlynedd o gyd weithio er lles bobol Dyffryn Nantlle.
Gofid oedd dod a'n rôl fel Corff Atebol i Bartneriaeth Talysarn a Nantlle o gymunedau'n Gyntaf i ben eleni. Daeth y Bwrdd i'r penderfyniad oherwydd yr angen i ganolbwyntio ar brosiectau unigol eraill, ond mae'r Antur yn parhau eu cynrychiolaeth ar fwrdd y Partneriaeth, ac yn hapus iawn i barhau ein rol fel aelod. Wrth ddymuno yn dda iddynt carwn ymrwymo i gyd-weithio a nhw ym maes yr economi, ac yn arbennig iawn ym maes Ynni Adnewyddol. Bydd gan yr Antur gyfraniad sylweddol, a nifer o gynlluniau cynhyrfus yn y maes pwysig hwn.

Diolch i'r holl gyrff fu'n cymorth i ni yn ein gwaith, ac i bobol Dyffryn Nantlle am eu cefnogaeth.

Cynghorydd O.P. Huws

# BWRDD RHEOLI ANTUR NANTLLE CYF 2008 - 2009



Cyng. O P Huws
Cadeirydd



Dafydd Owen
Is-gadeirydd



John Pritchard



Talfryn Griffiths



Cyng. Dyfed Edwards



Elwyn Jones Griffith



Gwynne Williams



Ben Gregory



Ifan Glyn Jones….



Richard Wyn Huws.

## BWRDD RHEOLI ANTUR NANTLLE CYF

| | |
|---|---|
| O P Huws (Cadeirydd) | Cynghorydd Gwynedd |
| Dafydd Owen (Is-gadeirydd) | Cyfarwyddwr Gwasg Dwyfor |
| John Pritchard | Cyfrifydd |
| Talfryn Griffiths | Cyfreithiwr |
| Elwyn Jones Griffith | Prifathro wedi ymddeol |
| Dyfed Wyn Edwards | Cynghorydd Gwynedd |
| Gwynne Williams | Peiriannydd gwresogi |
| Ben Gregory | Swyddog Cymuned Tai Eryri |
| Ifan Glyn Jones | Prifathro wedi ymddeol |
| Richard Wyn Huws | Hunan gyflogedig |

### YSGRIFENNYDD ANTUR NANTLLE CYF

Beryl Fretwell

Cynhaliwyd 6 chyfarfod o Fwrdd Rheoli Antur Nantlle yn ystod y flwyddyn ynghyd a phedwar Cyfarfod Arbennig.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 6ed Dachwedd 2008

Yn unol â'r drefn ymddeolodd pedwar o gyfarwyddwyr o'r Bwrdd – Dafydd Owen, Talfryn Griffiths, John Pritchard, Elwyn Jones Griffith

Ail etholwyd y pedwar.

### STAFF ANTUR NANTLLE

| | |
|---|---|
| Dafydd Glyn Owen | Swyddog Menter |
| Beryl Fretwell | Swyddog Gweinyddol |
| Dafydd Henry Williams | Cydlynydd Cymunedau'n Gyntaf Ward Talysarn |
| Wena Roberts | Swyddog Gweinyddol Cymunedau'n Gyntaf |
| Nick Thomas | Cymhorthydd Ieuenctid Cymunedau'n Gyntaf |
| Glenys Ll Williams | Swyddog Datblygu Cymunedau'n Gyntaf |
| Bet Hughes | Gofalwraig y Ganolfan Dechnoleg |
| Nerys Pritchard | Gofalwraig y Ganolfan Fenter |
| Nia Wyn Noone | Gofalwraig Tŷ Iorwerth |

**BANCWYR**
HSBC Cangen Caernarfon

## ARDAL ANTUR NANTLLE

Mae Antur Nantlle Cyf yn gweithredu yn ardal Dyffryn Nantlle a'r pentrefi cyfagos sy'n cynnwys: –

Carmel, Clynnogfawr, Dinas Dinlle, Y Fron , Y Groeslon, Llandwrog, Llanllyfni, Nantlle, Nasareth, Nebo, Penygroes, Pontllyfni, Talysarn, Tanrallt.

## CYFLAWNIADAU 2008 / 2009


| | |
|---|---|
| Swyddi wedi eu creu neu eu gwarchod | 56 |
| Nifer wedi cael budd o'r gwasanaethau a gynigir | 2500 |
| Nifer a dderbyniodd hyfforddiant | 78 |
| Mudiadau, cynlluniau a gweithgareddau cymunedol wedi cael cefnogaeth | 15 |

## CYFARFOD, TRAFOD A CHYDWEITHIO
gyda

Cyngor Gwynedd, Partneriaeth Talysarn a Nantlle, Ymddiriedolaeth Tir Dyffryn Nantlle, Cyfeillion Cae'r Gors, Y Ganolfan Gwaith, Cwmni Gyrfa Cymru, Coleg Harlech / WEA, Prifysgol Cymru Bangor, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, Llywodraeth y Cynulliad, Grŵp Gwefan Dyffryn Nantlle, Mantell Gwynedd, Menter a Busnes, Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Gwynedd, Cymorth i Ferched Cymru, Tai Eryri, Ysgol Dyffryn Nantlle, Heddlu Gogledd Cymru, Grŵp Llys Llywelyn, Grŵp Canolfan Cymdeithasol Talysarn, Gŵyl Fai Dyffryn Nantlle, Cyngor Cymuned Llanllyfni, Deudraeth Cyf, Cymunedau@eiGilydd , Grŵp Amgylcheddol Talysarn, Cylch, Y Gronfa Fuddsoddi Gymunedol a nifer eraill o grwpiau a chymdeithasau yn y gymuned.

# SWYDDOG MENTER ANTUR NANTLLE

**Dafydd Glyn Owen**
**01286 882688 / 07796364279 / dafydd@anturnantlle.com**



Ar wahân i'r gwaith pwysig o warchod adeiladau'r Antur a bod wrth law i fod o gymorth i'r tenantiaid, prif waith y Swyddog Menter yn ystod y flwyddyn oedd trefnu a mynychu cyfarfodydd Bwrdd Rheoli'r Antur a chyfarfodydd grwpiau gwaith y cwmni sef yr is-bwyllgorau:-

i) **Is bwyllgor Eiddo a Thenantiaeth**

Bu'r is-bwyllgor yn trin a thrafod ceisiadau am unedau'r Antur a braf yw adrodd fod pob uned a swyddfa wedi bod yn llawn ar wahân i'r ychydig gyfnodau o fynd a dod.

Eleni bu'n rhaid gwario'n sylweddol ar y siop/gweithdy i ddod a'r adeilad i fyny i safon ac mae Antur Nantlle yn falch iawn o groesawu Meical Roberts a'i gwmni Llun Mewn Ffrâm fel tenant newydd 35 Stryd yr Wyddfa, Penygroes.

**ii) Is-grwpiau Diwydiant ac Economi Antur Nantlle**

- **Grŵp Ynni Adnewyddol Hydro Antur Nantlle**

Sefydlwyd Grŵp Ynni Adnewyddol yr Antur i ystyried oblygiadau newid yn yr hinsawdd a lleihau ôl troed carbon yn Nyffryn Nantlle. Yn dilyn ymchwiliad desg positif ar ddwy afon lleol penderfynwyd canolbwyntio ac ymholi ymhellach i'w potensial ar gyfer cynllun ynni adnewyddol hydro.

Ar ol trafod gyda'r tirfeddianwyr, Asiantaeth yr Amgylchedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd cafwyd cymorth Cronfa Cynaliadwyedd Cyngor Gwynedd i baratoi astudiaeth cychwynnol i weld a oedd posib datblygu cynllun hydro ar y ddwy afon.

Gan fod yr astudiaethau rhagarweiniol yn addawol mae'r Grŵp wedi ymrwymo i symud ymlaen gyda chomisiynu Astudiaeth Bryophtes er mwyn asesu sefyllfa tyfiant prin, pysgod, llygod dwr ayb yn yr afonydd. Bydd hyn yn arwain at y cam nesaf o drafod eto hefo Asiantaeth yr Amgylchedd gyda'r gobaith o symud ymlaen a'r gwaith o baratoi Astudiaeth Dichonoldeb llawn i'r prosiect.

Mae hwn yn gynllun cyffrous ac amserol ac mae'r Antur yn awyddus iawn i'w weld yn llwyddo.

- **Grŵp Twristiaeth Antur Nantlle**

Yn dilyn cyhoeddi Astudiaeth ar Dwristiaeth yn Nyffryn Nantlle sefydlwyd Grŵp Twristiaeth Antur Nantlle i drafod yr adnoddau sydd ar gael i dwristiaid yn y Dyffryn a'r diffyg llefydd i bobl aros yn yr ardal.

Mae adroddiad *Planning for Real®,* a gwblhawyd drwy raglen Rhoi Cymunedau'n gyntaf gan Partneriaeth Talysarn a Nantlle yn cyfeirio at Y Barics Nantlle fel man addas i'w ddatblygu ar gyfer ymwelwyr a chan fod y Barics ym meddiant yr Antur, penderfynodd y Grwp Twristiaeth chwilio am gyllid i baratoi Cynllun Busnes - Llety Ymwelwyr a Chanolfan Awyr Agored i Ddyffryn Nantlle.

Cyflwynodd y Swyddog Menter gais llwyddiannus i Gronfa Fuddsoddi Gymunedol y Cynulliad am gyllid o £15,000 a chomisiynwyd partneriaeth Egin i wneud yr astudiaeth.

Cwblhawyd yr astudiaeth yn Rhagfyr 2008 ac mae digon o dystiolaeth ynddi i barhau i ymgynghori a gwneud gwaith ymchwil pellach. Mae copi o'r adroddiad i'w weld ar dudalen Antur Nantlle ar safle we www.nantlle.com

**YSGOL 'REGEN' CYMRU (Regen School®)**
**mewn partneriaeth a Cylch (Rhwydwaith Ailgylchu Cymunedol Cymru)**

Rhaglen adfywio cymunedau yng Nghymru yw'r Ysgol Regen a bu'r Swyddog Menter yng nghwmni Ifan Glyn Jones aelod o'r Bwrdd Rheoli yn rhan o'r cynllun dros gyfnod o 6 mis.

Yn ystod y cyfnod hwn mynychwyd gweithdai yn cynnwys Cyflwyniad i Fentrau Cymdeithasol, Parodrwydd i Fuddsoddi, Marchnata, Rheoli Effeithiol ac Adnoddau Dynol, Cynllunio Strategol a Throsglwyddo a Datblygu Asedau Cymunedol. Eu mentor dros gyfnod y cynllun oedd Hywel Evans (hywel evans cyf) gwr wedi datblygu profiadau eang drwy weithio i'r Bwrdd Datblygu Cymru Wledig, Menter a Busnes ac Awdurdod Datblygu Cymru ac yn ddiweddarach fel mentor a hwylusydd ar ystod eang o brosiectau.

Er mwyn canolbwyntio ar gynllun Canolfan Awyr Agored yr Antur trefnodd Hywel Evans ymweliad buddiol iawn a dwy ganolfan gwyliau lwyddiannus sef Wern Watkin - canolfan *'bunkhouse'* mewn ardal fynyddig ddiarffordd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a chanolfan Glynmeddig yn Aberhonddu.

Gan fod yr Antur yn aelod o Cylch roedd cyfle i'r Swyddog Menter ddysgu llawer am ailgylchu a'r gwahanol gynlluniau sydd yn cael eu gweithredu yng Ngwynedd gan aelodau eraill Cylch.

**Y Fic**

Fel cwmni cymunedol yn gweithio er lles Dyffryn Nantlle, anodd ydyw peidio a phoeni am gyflwr adeilad Y Fictoria ym Mhenygroes. Mae'r Swyddog Menter wedi treulio cryn amser yn cysylltu hefo'r perchnogion ac ymchwilio i wahanol bosibiliadau. Yn anffodus nid yw'r ymdrechion wedi dwyn ffrwyth hyd yma.

Mae Dafydd yn barod bob amser i groesawu unrhyw un sydd eisiau trafod gweithgareddau lleol, cychwyn busnes yn yr ardal, chwilio am unedau a swyddfeydd neu sydd â diddordeb mewn ymuno ag is-grwpiau'r Antur.  Mae hefyd wedi cynrychioli'r Antur yng nghyfarfodydd Ymddiriedolaeth Tir Dyffryn Nantlle a Grŵp Rhaglen Gwaith Partneriaeth Talysarn a Nantlle.

## CANOLFAN DECHNOLEG ANTUR NANTLLE CYF

20 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6LR  01286 882688




Y Ganolfan Dechnoleg yw canolbwynt gweinyddol yr Antur a dyma lle mae'r Swyddog Menter a'r Swyddog Gweinyddol yn gweithio. Mae'n wir i ddweud fod hon yn ganolfan i'r gymuned gyfan ers 10 mlynedd bellach – gwasanaeth sydd yn mynd yn fwy ac yn fwy anodd ei gynnal yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.



Beryl Fretwell, Swyddog Gweinyddol Antur Nantlle yn y dderbynfa

Oddi mewn i'r muriau hefyd mae swyddfa Swyddog Adfywio Nantlle Gwyrfai Cyngor Gwynedd ac Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Dyffryn Nantlle.

Er bod newidiadau sylweddol wedi digwydd ym maes hyfforddiant TG fe gynhaliwyd amrywiol gyrsiau yn yr ystafell hyfforddiant eleni eto. Diolch i Goleg Harlech / WEA am gydweithio ers deng mlynedd i gynnig darpariaeth safonol o hyfforddiant gyfrifiadurol ym Mhenygroes. Mae Prifysgol Bangor, Sefydliad y Merched, Grŵp Gwefan Dyffryn Nantlle, Caernarfon Girl Guides a Ffermwyr lleol hefyd wedi derbyn hyfforddiant yn ystod y flwyddyn. Diolch i Adran TG y Cyngor am edrych ar ôl y cyfrifiaduron i ni.

Mae gennym lungopïwr, peiriant ffacs, cyswllt i'r we, defnydd cyfrifiaduron, cyrsiau cyfrifiadur a chyswllt ffôn uniongyrchol rhad ac am ddim i'r Ganolfan Byd Gwaith Mae defnydd cyfrifiaduron y Ganolfan am ddim i'r rhai sydd yn chwilio am waith. Mae'r heddlu wedi gosod bocs awgrymiadau yn y cyntedd felly os oes gennych syniadau neu gwynion i'r heddlu lleol galwch heibio'r Ganolfan.


Drwy ddefnyddio gwasanaeth Antur Waunfawr rydym yn bwynt ailgylchu papur o bob math a chetris cyfrifiaduron.

Diolch yn fawr unwaith eto i Bet am gadw'r Ganolfan a Siop 22 yn lân ac yn dwt bob amser.

**LLYFRGELL PENYGROES**
01286 880427

Mae llyfrgell Penygroes a Chanolfan Dechnoleg Antur Nantlle dan yr unto ers deng mlynedd bellach ac mae cydweithio hapus wedi bod rhyngom ar hyd y blynyddoedd.

Mae tystiolaeth gyson fod pobl yn mwynhau dod i lyfrgell Penygroes gan fod hon yn llyfrgell gyfeillgar a chroesawus. Er ein bod mewn dyddiau o brinder arian mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn dal i gynnig gwasanaeth benthyca a defnyddio cyfrifiaduron yn rhad ac am ddim.



Mared wedi creu anghenfil yn ystod un o'r sesiynau crefft i blant bach yn y llyfrgell



Cian wedi darganfod fod peintio wynebau yn rhan o'r gweithgareddau hefyd!

**SWYDDOG ADFYWIO BRO GWYRFAI NANTLLE**
**CYNGOR GWYNEDD**

Y Swyddfa Adfywio, Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle, 20 Heol y Dŵr, Penygroes
01286 882968



Mae Kelvin wedi bod yn Swyddog Adfywio dros fro Dyffryn Nantlle ers 5 mlynedd erbyn hyn. Nôd y cynllun Adfywio Bro yw cefnogi grwpiau i gyfrannu tuag at adfywio economaidd, cymunedol, amgylcheddol a chymdeithasol eu cymunedau.

Felly os ydych chi'n ymwneud â grŵp sydd angen cefnogaeth neu â diddordeb sefydlu grŵp newydd fyddai'n cyfrannu tuag at eich cymuned cysylltwch â Kelvin.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Kelvin wedi parhau i roi cefnogaeth i Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Dyffryn Nantlle a chymorth i Antur Nantlle gyda chynlluniau Canolfan Awyr Agored a'r cynllun Ynni Adnewyddol. Yn ogystal cafwyd llwyddiant gyda Gwedd 2,3 & 4 o gynllun adnewyddu Neuadd Y Groeslon a Gwedd 1 o gynllun gwelliannau Neuadd Goffa Penygroes.

**YMDDIRIEDOLAETH TIR CYMUNEDOL DYFFRYN NANTLLE (Ymtic) 07970574068**



Dafydd Watts
Swyddog Datblygu Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Dyffryn Nantlle

O'i swyddfa ar lawr cyntaf y Ganolfan Dechnoleg mae Dafydd wedi bod yn symud ymlaen hefo gwaith yr Ymddiriedolaeth.

Yn ystod y flwyddyn mae'r YmTic wedi cynnal arolygon anghenion tai yn Nantlle ac ardal Cyngor Cymuned Llandwrog ar gyfer cynlluniau posib, ac wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth a Llywodraeth y Cynulliad ar gynllun posib ar gyfer hyd at 7 tŷ ar safle yn perthyn i'r Cynulliad yn Y Groeslon. Mae'r YmTic wedi bod yn ymchwilio i'r posibiliadau o ddatblygu cynlluniau ynni adnewyddol a fyddai'n creu incwm digonol i sicrhau y bydd prisiau'r tai a ddatblygir ganddynt yn aros o fewn cyrraedd pobl leol am byth. Ariannwyd y gwaith efo grantiau gan Gyngor Gwynedd, y Tudor Trust a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**CANOLFAN FENTER DYFFRYN NANTLLE**
Ffordd Llanllyfni, Penygroes LL54 6DB



Paul a Brian Hatt gydau systemau 'PA'



Gwynant Parri yn ei stiwdio hefo llun o Fynydd Paris

Dyma fan cychwyn cwmni Antur Nantlle yn ôl yn 1992 ac mae'r safle wedi gweld amrywiaeth hynod o fusnesau bach yn mynd a dod ers amser agor y Ganolfan.

Heddiw mae modd prynu nwy potel yma, prynu rhannau ceir, cael tynnu eich llun mewn stiwdio, cael gwasanaeth torri coed arbenigol a wyddoch chi fod gan Brian a Paul Hatt o Uned 2 gysylltiadau hefo nifer o sêr mawr y byd pop fel rhan o'u gwaith gwasanaeth *PA* - maent wedi gweithio hefo Petula Clark, Neil Sedaka, Freddie Star i enwi dim ond rhai heb anghofio Bryn Fôn hefyd!!

Fe gynhaliwyd rhai cyrsiau Cymraeg yma yn ystod y flwyddyn ond oherwydd y galw am fwy o le fe benderfynwyd gosod yr ystafell gyfarfod i gwmni King Tree Services.







Emma sy'n gweithio i Celtic Auto Parts

# SIOP/GWEITHDY, 35 STRYD YR WYDDFA, PENYGROES






Alun Ffred Jones AC yn agor oriel Llun-Mewn-Ffrâm

Pan ddaeth y siop yn wag yn ystod y cyfnod bu'n rhaid i'r Antur fuddsoddi yn sylweddol ar ddod a'r adeilad i fyny i safon. Daeth Meical Roberts a'i gwmni Llun-Mewn-Ffram yn denant i'r siop/gweithdy ar ei newydd wedd.

Ynghyd a chynnig gwasanaeth fframio o'r radd uchaf mae Meical hefyd yn gwerthu ac arddangos lluniau gwreiddiol a phrintiau o waith rhai o artistiaid cyfoes gorau Cymru fel Ifor Pritchard, William Selwyn, Aneurin Jones, Keith Bowen, Keith Andrew a Diane Williams. Mae Meical hefyd yn awyddus i gefnogi artistiaid lleol drwy eu hannog i ddangos eu gwaith yn yr oriel ac yn gwerthu gwaith nifer o grefftwyr coed a llechi o'r ardal.

Agorwyd y siop yn swyddogol gan yr Aelod Cynulliad lleol Alun Ffred Jones fore Sadwrn Mawrth 25 ac mae'r siop / oriel eisoes wedi ennyn diddordeb pobl leol ac o'r tu allan i'r pentref



Mae'r Antur yn hapus i weld yr adeilad yn agor fel siop yn enwedig y dyddiau anodd hyn ac yn yr achos hwn yn falch o gael siop sydd yn cynnig gwasanaeth arbenigol ac yn gwerthu dewis eang o nwyddau arbennig. Dyma'r math o fusnes fydd yn sicr yn gwneud siopa ym Mhenygroes yn brofiad llawer mwy diddorol.

Cysylltwch â Meical ar 01286 882056

## Siop 22

10 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6LR



Fel Siop 22 yr adnabyddir 10 Heol y Dwr yn lleol o hyd a hynny'n deillio'n ôl i'r dyddiau pan oedd yn siop ddillad gan deulu lleol. Mae'r Antur yn falch o fod wedi medru cadw'r safle fel adeilad masnachol sy'n cynnig pedair swyddfa, yng nghanol pentref Penygroes.

Matt Tuck o gwmni Matom yw tenant y llawr gwaelod

Mae Gruff Owen yn gweithio i Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru yn swyddfa 2. Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn i'w gofal adeiladau crefyddol diangen sydd o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig. Am fwy o wybodaeth am waith yr Ymddiriedolaeth cysylltwch â Gruff ar 01286 881365

Marika Fusser yw Gweithiwr Datblygu'r Gogledd a'r Canolbarth i Gymorth Cynllunio Cymru. Mae Marika yn gweithio yn swyddfa 3. Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn darparu cyngor a chymorth proffesiynol ac annibynnol am ddim ar faterion cynllunio gwlad a thref yng Nghymru. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Marika yn y swyddfa ar 01286 882834 / www.cymorthcynlluniocymru.org.uk

Am bob math o waith dylunio graffig ar y cyfrifiadur a chynhyrchu gwefannau cysylltwch â Justin Davies o Gringo Designs yn Swyddfa 4 ar 01286 882561.

**Y BARICS**
**Nantlle, Caernarfon, Gwynedd LL54 6BD**



Mae canolfan Llys Llywelyn yn ganolfan brysur dros ben yn Nantlle ac yn cynnig man cyfarfod i drigolion lleol a chymdeithasau a grwpiau yn yr ardal.

Peter a Wendy Midwinter gyda 'Railways Unlimited'sydd yn Uned 3, sef cwmni yn trwsio, gwerthu a threfnu arddangosfeydd o drenau bach.

Yn Uned 4 mae Dyfrig Peris a Jennie Corr yn rhedeg cwmni Peris a Corr. Mae'r cwmni yn cynnig gwasanaeth argraffu a sgrin hefo inciau dwr - argraffu ar grysau T, bagiau cynfas ayyb. Maent hefyd yn cynllunio tecstiliau a chardiau cyfarch eu hunain. Mae'r holl waith papur a chardiau cyfarch yn cael eu hargraffu ar bapur wedi'i ailgylchu a defnyddir deunyddiau pecynnu pydradwy neu wedi'u hailgylchu lle bynnag y bo modd.



Dyfrig wrthi'n printio cynlluniau unigryw
Peris & Corr
01286881787 www.perisandcorr.com

Mae mwy o waith celf i'w weld yn Uned 5 wrth i Christine Matthews gynhyrchu peintiadau ayyb tra'n gweithio tuag at ennill Gradd yn y Brifysgol ym Mangor.

## TŶ IORWERTH
## 39 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6ES




Mae dros bum mlynedd wedi mynd heibio erbyn hyn ers pan ddaeth adeilad yr HSBC i feddiant yr Antur. Bu'r Antur yn llwyddiannus yn denu grantiau i adnewyddu'r ddau lawr uchaf yn saith swyddfa i'w gosod. Pan gwblhawyd y gwaith, a'r busnes o chwilio am denantiaid yn cychwyn - daeth y newydd fod Cymorth i Ferched Cymru wedi derbyn cyllid i gychwyn llinell gymorth trais yn y cartref drwy Gymru gyfan a dyna gychwyn ar gydweithio i gynnig lleoliad iddynt yn Tŷ Iorwerth. O'u canolfan ym Mhenygroes mae'r llinell gymorth yn cynnig gwasanaeth cyfrinachol dwyieithog 24 awr y dydd i ferched, plant a dynion sy'n dioddef camdriniaeth yn y cartref. (0808 8010800).

Hefyd mae gwasanaeth holl bwysig yr HSBC yn dal ar gael yn y pentref a gobaith pawb ydyw y bydd parhad i'r gwasanaeth am flynyddoedd i ddod.



Rhian ac Angela gweithwyr llinell gymorth trais yn y cartref




Cris Jones

Cris Jones sydd yn Swyddfa 6 yn gweithio fel cyfieithydd a Ben Gregory yn Swyddfa 7 gydag Ymgyrch Nicaragua.

## RHOI CYMUNEDAU'N GYNTAF
## PARTNERIAETH TALYSARN A NANTLLE 01286 881103



Glenys William
Swyddog Datblygu



Dafydd Williams
Cydlynydd



Wena Roberts
Cymhorthydd
Gweinyddol



Nick Thomas
Cymhorthydd Ieuenctid

Mae Talysarn a Nantlle wedi bod yn rhan o Raglen Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad ers dros saith mlynedd ac mae Antur Nantlle wedi gweithredu fel Corff Atebol i'r Bartneriaeth leol yn ystod y cyfnod hwn. Prif nod y Rhaglen yw gwella ansawdd byw ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru drwy godi hyder a balchder, creu cyflogaeth a dod a gwelliannau economaidd i'r ardal.

Er mwyn ymgyrraedd at y nod hwn bu staff ac aelodau Partneriaeth Talysarn a Nantlle yn gweithio'r ddygn i ennyn diddordeb pobl leol, datblygu gweithgareddau a chefnogi grwpiau, mudiadau a chymdeithasau megis y farchnad cynnyrch lleol a'r band.

Mae'r ardal wedi elwa yn y blynyddoedd diwethaf o gael canolfannau cymunedol yn y ddau bentref - Canolfan fawr newydd yn Nhalysarn a Llys Llywelyn wedi sefydlu mewn adeilad hanesyddol yn Y Barics yn Nantlle.

Er mwyn sicrhau parhad y Rhaglen yn yr ardal roedd gofyn paratoi cais yn nodi cynlluniau a rhaglen waith i'w gweithredu yn ystod y tair blynedd nesaf. Siomedig oedd y newyddion a gafwyd gan y Cynulliad mai blwyddyn o gyllid ychwanegol a oedd yn cael ei gynnig ganddynt ar sail y cais a wnaethpwyd. Serch hynny fe roddwyd pennau at ei gilydd a mynd *'back to the drawing board'* cyn i'r Bartneriaeth ail gyflwyno'r cais. Y gobaith mawr ydyw y bydd y cais newydd hwn yn sicrhau ymestyn y cyfnod cyllido i dair blynedd.

Mae staff yn gweithio o swyddfa'r Bartneriaeth sydd wedi ei lleoli yng Nghanolfan Talysarn a bydd y Cydlynydd ar gael yn Llys Llywelyn Nantlle bob dydd Mercher.

# DIWEDDGLO

Dyna gau pen y mwdwl ar ein 18fed flwyddyn o weithredu yn Nyffryn Nantlle a diolch i bawb sydd wedi ein cefnogi gyda'n gweithgareddau.

Fedrwn ni ddim osgoi'r penawdau dyddiol a'r pwysau sydd arnom oll i wneud rhywbeth ynglŷn â'r newid hinsawdd a lleihau ôl troed carbon yn y byd sydd ohoni . Mae'r Antur wedi ymateb drwy sefydlu Grŵp Ynni Adnewyddol i ymchwilio i brosiect hydro ar afonydd lleol fyddai'n cynhyrchu ynni gwyrdd. Mae'r gwaith cychwynnol sydd wedi ei wneud hyd yma yn addawol iawn ac er bod llawer iawn o waith caled i'w wneud eto - astudiaeth fanwl i'w chwblhau, dod o hyd i ffynonellau arian i'r cynllun - rydym yn edrych ymlaen ac yn hyderus i gymryd y camau nesaf.

Mae Grŵp Twristiaeth Antur Nantlle wedi cychwyn o ddifri ar drafodaethau i wella darpariaeth i dwristiaid o fewn yr ardal. Mae Astudiaeth Dichonoldeb wedi ei chwblhau ar gynllun Llety Ymwelwyr a Chanolfan Gweithgareddau Awyr Agored i Ddyffryn Nantlle. Ein gobaith fydd llwyddo i symud y cynllun hwn yn ei flaen yn y dyfodol er mwyn ymestyn y ddarpariaeth sydd yn y Dyffryn i ymwelwyr a chwyddo'r diwydiant twristiaeth er budd yr ardal.

Mae'r Antur yn awyddus i weld prosiectau megis y rhai y cyfeirir atynt uchod yn datblygu ond allwn ni ddim gwneud hyn heb neilltuo llawer iawn o amser a gwaith caled i symud ymlaen. Adnoddau prin sydd gennym ac o'r herwydd fe ddaeth Bwrdd yr Antur i'r penderfyniad i ddod a'u cyfnod fel Corff Atebol i Bartneriaeth Talysarn a Nantlle i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Rydym yn dymuno'r gorau i aelodau'r Bartneriaeth a'r staff gyda'u hymdrechion yn y dyfodol a gallwn eu sicrhau y byddwn fel asiantaeth gymunedol leol, yn barod iawn i'w cefnogi ac i gydweithio gyda hwy ar gynlluniau economaidd yn y Dyffryn.

Fel sy'n nodweddiadol o unrhyw un sydd wedi cyrraedd y 18 oed – mae'n amser i agor y drws a chychwyn ar gyfnod newydd - cyfnod newydd yn llawn her a gobaith i Antur Nantlle wrth inni edrych ymlaen at ddyfodol cyffrous, cynlluniau newydd a datblygu prosiectau i'w gweithredu 'er lles yr ardal'.

Partneriaeth Talysarn a Nantlle